------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Agenda - Y Pwyllgor Cyllid

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a: |
| **Ystafell Bwyllgora 2 - y Senedd** | **Bethan Davies** |
| Dyddiad: Dydd Iau, 17 Tachwedd 2016 | Clerc y Pwyllgor |
| Amser: 10.00 | 0300 200 6372 |
| | SeneddCyllid@cynulliad.cymru |

## 1 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2017-18: Digwyddiad i randdeiliaid yn Theatr Soar, Merthyr Tudful

(10.00-12.00)

## 13:45-14:00 Rhag-gyfarfod anffurfiol

## 2 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(14.00)

## 3 Papur(au) i'w nodi

(14.00) (Tudalennau 1 - 8)

**Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol - Ail Gyllideb Atodol 2016-17 - 9 Tachwedd 2016**

(Tudalen 9)

## 4 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2017-18: Sesiwn dystiolaeth 6

(14.00-16.00) (Tudalennau 10 - 38)

Mark Drakeford AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol
Margaret Davies, Dirprwy Gyfarwyddwr - Cyllidebu Strategol, Llywodraeth Cymru
Andrew Jeffreys, Cyfarwyddwr - Trysorlys, Llywodraeth Cymru

Cynulliad Cenedlaethol Cymru National Assembly for Wales

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod ac o'r cyfarfodydd ar 23 Tachwedd 2016, 1 Rhagfyr 2016 a 7 Rhagfyr 2016

(16.00)

## 6 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2017-18: Trafod y dystiolaeth

(16.00-16.30)

## 7 Amcangyfrif incwm a threuliau gan Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfer 2017-18: Trafod yr adroddiad drafft

(16.30-16.45) (Tudalennau 39 - 54)

Papur 1 – Adroddiad drafft

## 8 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Cyllid Troseddol

(16.45-17.00) (Tudalennau 55 - 59)

Papur 2 – Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Cyllid Troseddol
Papur 3 – Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Cyllid Troseddol - Cyngor Cyfreithiol

# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Senedd**

Dyddiad: Dydd Iau, 3 Tachwedd 2016

Amser: 09.01 - 15.36

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/3776

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Simon Thomas AC (Cadeirydd)<br>Mike Hedges AC<br>Eluned Morgan AC<br>David Rees AC<br>Steffan Lewis AC<br>Nick Ramsay AC<br>Mark Reckless AC |
| Tystion: | Isobel Garner, Swyddfa Archwilio Cymru<br>Steve O'Donoghue, Swyddfa Archwilio Cymru<br>Huw Vaughan Thomas, Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru, Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru<br>Kevin Thomas, Swyddfa Archwilio Cymru<br>Natasha Davies, Chwarae Teg<br>Anne Meikle, WWF Cymru<br>Toby Roxburgh, WWF-UK<br>Vanessa Young, Conffederasiwn GIG Cymru |

| | |
|---|---|
| | Gary Doherty, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr<br><br>Eifion Williams, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys<br><br>Steve Webster, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf<br><br>Mark Drakeford AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol<br><br>Andrew Hewitt, Llywodraeth Cymru<br><br>Gareth McMahon, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Bethan Davies (Clerc)<br><br>Catherine Hunt (Ail Glerc)<br><br>Georgina Owen (Dirprwy Glerc)<br><br>Martin Jennings (Ymchwilydd)<br><br>Owen Holzinger (Ymchwilydd)<br><br>Joanest Varney-Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)<br><br>Lakshmi Narain (Cynghorwr Technegol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

## 2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

## 3 Amcangyfrif incwm a threuliau gan Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru: Sesiwn dystiolaeth

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Isobel Garner, Cadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru; Huw Vaughan Thomas, Archwilydd Cyffredinol Cymru; Kevin Thomas,

Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol, Swyddfa Archwilio Cymru; a Steven O'Donoghue, Cyfarwyddwr Cyllid, Swyddfa Archwilio Cymru.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o’r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Amcangyfrif incwm a threuliau gan Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru: Trafod y dystiolaeth

5.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

## 6 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2017-18: Sesiwn dystiolaeth 2

6.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Natasha Davies, Partner Polisi, Chwarae Teg; Anne Meikle, Pennaeth WWF Cymru; a Toby Roxburgh, Arbenigwr Economeg Gymhwysol, WWF UK.

## 7 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2017-18: Sesiwn dystiolaeth 3

7.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Vanessa Young, Cyfarwyddwr Conffederasiwn GIG Cymru; Gary Doherty, Prif Weithredwr, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (yn cynrychioli pob Prif Weithredwr GIG Cymru); Eifion Williams, Cyfarwyddwr Cyllid, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys (yn cynrychioli Cyfarwyddwyr Cyllid GIG Cymru); a Steve Webster, Cyfarwyddwr Cyllid / Dirprwy Brif Weithredwr, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf.

7.2 Cytunodd Conffederasiwn y GIG i wneud y canlynol:

- cadarnhau ai 3 y cant ynteu 5 y cant o'r gweithwyr ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru sy'n ddinasyddion yr UE; a

gofyn i'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol a ydyw'n gweld unrhyw effaith o ran prisiau'n cynyddu oherwydd newidiadau yn y gyfradd gyfnewid neu mewn perthynas â chwyddiant.

## 8 Y Bil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru): Sesiwn dystiolaeth y Gweinidogion

8.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Mark Drakeford AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol; Andrew Hewitt, Rheolwr Polisi, Llywodraeth Cymru; a Gareth McMahon, Cyfreithiwr y Llywodraeth, Llywodraeth Cymru.

## 9 Y Bil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru): Trafod y dystiolaeth

9.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

## 10 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2017-18: Trafod y dystiolaeth

10.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mercher, 9 Tachwedd 2016

Amser: 09.20 - 12.11

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/3783

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Simon Thomas AC (Cadeirydd)<br>Mike Hedges AC<br>Eluned Morgan AC<br>David Rees AC<br>Steffan Lewis AC<br>Nick Ramsay AC |
| Tystion: | Huw David, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru<br>Anthony Hunt, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru<br>Mari Thomas, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru<br>Jon Rae, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru<br>Yr Athro Marcus Longley, Prifysgol De Cymru<br>David Robinson, Community Links<br>Anita Charlesworth, Y Sefydliad Iechyd<br>Yr Athro Ceri Phillips, Prifysgol Abertawe |
| Staff y Pwyllgor: | Bethan Davies (Clerc)<br>Georgina Owen (Dirprwy Glerc) |

| | |
|---|---|
| | Owen Holzinger (Ymchwilydd)<br><br>Christian Tipples (Ymchwilydd)<br><br>Joanest Varney-Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Mark Reckless AC.

## 2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

## 3 Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2017-18: Sesiwn dystiolaeth 4

3.1 Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Mari Thomas, Swyddog Polisi Cyllid, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC), Jon Rae, Cyfarwyddwr Adnoddau, CLlLC, y Cynghorydd Huw David (Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr), Llefarydd CLlLC ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Cynghorydd Anthony Hunt (Dirprwy Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen), Dirprwy Lefarydd CLlLC ar gyfer Cyllid ac Adnoddau.

3.2 Cytunodd CLlLC i ddarparu nodyn ar ei asesiad o ddigonolrwydd y gyllideb ar gyfer 2017-18 i ymdrin â Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru).

## 4 Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2017-18: Sesiwn dystiolaeth 5

4.1 Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan David Robinson, OBE, Uwch Gynghorydd Community Links, yr Athro Ceri Phillip, Athro Economeg Iechyd, Prifysgol Abertawe, yr Athro Marcus Longley, Cyfarwyddwr Athrofa Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru ac Athro Polisi Iechyd Cymhwysol, Prifysgol De Cymru ac Anita Charlesworth, Cyfarwyddwr Ymchwil ac Economeg, y Sefydliad Iechyd.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

5.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 6 Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2017-18: Trafod y dystiolaeth

6.1 Ystyriodd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

## 7 Yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus: Amcangyfrif o incwm a threuliau ar gyfer 2017-18: Ystyried yr adroddiad drafft

7.1 Derbyniodd y Pwyllgor yr adroddiad drafft â mân newidiadau.

## 8 Datganoli pwerau cyllidol i Gymru

8.1 Nododd y Pwyllgor y llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol a chytunodd i gynnal ymchwiliad byr ar weithredu Deddf Cymru 2014 yn y flwyddyn newydd.

## 9 Bil Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru): Trafod y cyngor arbenigol

9.1 Trafododd y Pwyllgor bapur ar gyngor arbenigol ar gyfer y Bil Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) a phenderfynodd peidio â phenodi cynghorydd arbenigol.

**Mark Drakeford AM/AC**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol**
**Cabinet Secretary for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Simon Thomas AC,
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid,
Cynulliad Cenedlaethol Cymru,
Bae Caerdydd,
Caerdydd
CF99 1NA

9 Tachwedd 2016

Annwyl Simon,

Rwyf yn bwriadu cyhoeddi Ail Gyllideb Atodol ar gyfer 2016-17. Mae'r llythyr hwn yn eich hysbysu ymlaen llaw o'm bwriad gan roi amser ichi gynllunio ar gyfer y gwaith craffu priodol.

Prif ddiben yr Ail Gyllideb Atodol fydd adlewyrchu newidiadau cyllidebol ers Cyllideb Atodol Gyntaf 2016-17, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin. Bydd hefyd yn nodi nifer o ddyraniadau o'n cronfeydd wrth gefn, trosglwyddiadau rhwng portffolios Llywodraeth Cymru, trosglwyddiadau gydag adrannau Llywodraeth y DU a bydd yn cynnwys rhagolygon diwygiedig ar gyfer Gwariant a Reolir yn Flynyddol.

Rwyf yn bwriadu cyflwyno'r Ail Gyllideb Atodol ar gyfer 2016-17 ar 7 Chwefror. Caiff y gyllideb ei chyhoeddi hefyd ar wefan Llywodraeth Cymru ar yr un diwrnod.

O gofio toriad y gwanwyn, rwyf wedi cytuno i ohirio symud yr Ail Gyllideb Atodol ymlaen wythnos tan 7 Mawrth. Mae hyn yn darparu'r cyfnod o dair wythnos a amlinellir yn y Rheolau Sefydlog.

Gobeithio y bydd y diweddariad hwn yn ddefnyddiol ichi.

Yn gywir,

Mark

**Mark Drakeford AC / AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol
Cabinet Secretary for Finance and Local Government

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Jane.Hutt@wales.gsi.gov.uk



*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

# Eitem 4

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon